

NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

TAFOD Y TAB

Bu newid yn y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r rhifyn nesaf o *Tafod y Tab*. Elaine ac Awen fydd yn gyfrifol amdano, a thaer erfynnir am adroddiadau ac erthyglau gan swyddogion **pob pwyllgor erbyn Ionawr 18fed** fan bellaf.

Y SULIAU NESAF

Rhagfyr 21:

Gwasanaeth Nadolig
Y Twmiaid Bach

Llywydd: Heulyn Rees

Taflen: Glenys M. Roberts

Sgrin: Carwyn Lloyd-Jones

PARTI'R PLANT I DDILYN

Rhagfyr 28:

Emlyn Davies

Llywydd: Geraint Wyn Davies

Taflen a Sgrin: Emlyn Davies

Ionawr 4:

Oedfa Aelodau Ardal Pentyrch

GWISGWCH SIWMPER A THALWCH BUNT!

Mae gwahoddiad i bawb wisgo siwmpwr Nadoligaidd neu ddillad lliwgar i ddod i'r oedfa ar Ragfyr 21ain, a thalu £1 am y fraint - a'r arian yn mynd i gronfa elusen y capel. Y bwriad yw rhoi help llaw i deuluoedd anghenus yn yr ardal drwy'r gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol. Beth amdani?

CARDIAU NADOLIG

Angen cerdyn ar y funud olaf?
Dewis da ar werth gan Ann Rees

NOSWYL NADOLIG

Cofiwch am y cyfarfod dwyieithog am 11:00p.m. Noswyl Nadolig. Os medr-wch gynnig eitem, neu os hoffech fod yn y band, mynnwch air gyda Geraint Rees rhagblaen.

LLYFRAU ARIANNOL

Cofiwch y bydd y llyfrau ariannol yn cau ar Ragfyr 31ain. Gwnewch ymdrech arbennig hefyd i gyfrannu drwy'r amlenni brown. Mae'r arian elusen yn mynd at bump achos lleol: TRAVOL, Y Stafell Fyw, Hosbis George Thomas, Clefyd y Galon, a Rhaglen Trawsblannu Gwaed a Mêr Ysbyty'r Waun. Rhowch yn hael os gwelwch yn dda.

FFAIR NADOLIG

Bydd Ffair Nadolig, mins peis a diod Nadoligaidd yn Neuadd y Pentref ar ôl y gwasanaeth heddiw. Y nod yw codi arian i elusennau'r capel.

DILLAD PLANT

Daeth i sylw John Llewellyn Thomas bod angen dybryd yn y Gwasnaethau Cymdeithasol am ddillad plant o bob oed, o fabis i blant yn eu harddegau. Mae croeso i chi adael dillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lle iawn.

HAMPERI NADOLIG

Dyma eich cyfle olaf i gyfrannu at yr hamperi Nadolig i bobl ifanc sy'n sefydlu cartref am y tro cyntaf yn yr ardal. Mae blwch ar gael yn y tu blaen.

YMGYRCH YR YSGOLION

Bu rhai o arweinwyr yr Ysgol Sul wrthi'n brysur yn dosbarthu cannoedd o daflenni yn yr ysgolion cynradd lleol i geisio denu rhagor o blant i'r capel. Pwy a wŷr, efallai y gwelwn ni ragor o rieni yn dod hefyd. Gobeithio!

AMDDIFFYN PLANT

Cytunodd Gwion Evans i fod yn gyfrifol am y drefn o amddiffyn plant ac oedolion bregus yn ein plith. Rydym yn diolch ac yn dymuno'n dda iddo wrth y gwaith.

CYMORTH CRISTNOGOL

Llawer o ddiolch i bawb a gyfrannodd at gronfa Nadolig Cymorth Cristnogol yn dilyn yr oedfa y Sul diwethaf. Bydd y gronfa ar agor tan ddechrau mis Chwefror. Rhagor o fanylion gan Lowri Roberts.

BWRDD Y CYFARWYDDWYR

Nos Lun, Rhagfyr 15fed am 7.30p.m.
yn Y Ganolfan

CÔR GODRE'R GARTH CÔR Y CWM

CYNGERDD NADOLIG

Capel y Tabernacl, Efail Isaf
7.30yh Nos Sul Rhagfyr 21
£5 / £3

Tocynnau wrth y drws
Yr elw i Bangla Cymru
ac achosion lleol

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau mawr i Eifiona a Cliff Hewitt ar ddod yn nain a thadcu yn ystod yr wythnos ddiwethaf. Ganwyd Mali Haf i Carys a Darren Brown, ac anfonwn ein cyfarchion at y teulu bach.